



YN Y GEGIN

Pitsa hawdd

Mae'r pitsas hyn yn gymaint o hwyl i'w gwneud gyda'ch plentyn. Mae'n bosibl eu haddasu i weddu i'r hyn sydd orau gan eich teulu neu'r cynhwysion sydd gennych chi adref.

Cynhwysion:

- Sail bara (e.e. baget, rhodyn bara, pita neu rap tortilla)
- Piwrî tomato
- Caws wedi'i gratio
- Hoff dopins (e.e. cyw iâr, pepperoni, ham, corn melyn, nionod, madarch, pesto, pupur ... pinafal?!)

YN Y GEGIN - Pitsa hawdd

Mae'r rhestr yma yn fwy o ganllaw - er enghraifft, gallwch greu sail y pitsa ar baget, rholiau bara neu hyd yn oed rapiâu tortilla. Gobeithio y cewch chi hwyl a mwynhau eich creadigaethau.

Byddwch hefyd angen:

- Hambwrdd pobi

Dull:

- Cynheswch y popty ymlaen llaw i 170°C/Ffan 150°C/Nwy 3
- Os ydych yn defnyddio baget neu rolyn bara, torrwch nhw yn eu hanner y ffordd hir
- Taenwch y piwrî tomato ar y bara mewn haen denau
- Gwasgarwch y caws ac ychwanegu eich topin

- Rhowch y pitsas ar hambwrdd pobi a'u pobi yn y popty am 10-15 munud, neu nes fod y caws wedi toddi

AWGRYM GWYCH:

Gofynnwch i'ch plentyn helpu gyda'r topin - beth am wneud wynebâu doniol neu batrymau?